Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cabinet | Dyddiad: | 9 Ionawr 2014 |
| | | Deialu Union: | 01824706141 |
| | | e-bost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CABINET** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 14 IONAWR 2014 yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

**Rhif Agenda** **Eitem**

**11 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 3 - 14)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau yn nodi manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio a Democrataidd

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley
Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Ionawr 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ynghylch y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ar sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod aelodau yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

Bod aelodau'n cymeradwyo'r trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn fel y manylir yn Adran 6:

- £72k i Gronfa Wrth Gefn EDRMS
- £355k i Gronfa Wrth Gefn Buddsoddiad Strategol (Tai Gofal Ychwanegol)
- £300k i Gronfa Wrth Gefn Moderneiddio Gofal Cymdeithasol

**4. Manylion am yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2013/14 (**Atodiad 1**). Cyllideb net y Cyngor yw £192m. Ar ddiwedd mis Rhagfyr, rhagwelir tanwariant ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £951k (£656 y mis diwethaf) sy'n cynrychioli amrywiad o 0.74%.

Mae **Atodiad 2** yr adroddiad yn dangos y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2012/13. Cytunwyd ar darged arbed o £3.061 miliwn ar gyfer y flwyddyn a hyd yn hyn mae 76% wedi'u cyflawni. Roedd y targed yn cynnwys £200k o arbedion moderneiddio. Hyd yn hyn, tybir y bydd tua £140k yn cael ei gyflawni (gan gynnwys

symleiddio argraffwyr ac arbedion teithio). Mae darpariaeth yn bodoli i ariannu unrhyw arbedion na chyflawnwyd yn y flwyddyn gyfredol a byddai unrhyw falans yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw a chyfalaf y cyngor a darparu strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae rhagolygon gwasanaethau cefnogi wedi'u nodi isod, os yw'n angenrheidiol:

**Gwella Busnes a Moderneiddio -** Fel yr adroddwyd yn flaenorol, rhagwelir y bydd y gwasanaeth ar hyn o bryd yn tanwario oherwydd y cynllun i beidio â llenwi swyddi gwag, mae'r tanwariant hwn bellach wedi cynyddu i £72k oherwydd yr oedi ym muddsoddiad digideiddio cofnodion wedi'u harchifo. Fel y gofynnwyd mewn adroddiadau blaenorol, bydd £40k o'r tanwariant hwn yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol i hybu prosiect EDRMS ac felly fe'i rhoddir yng nghronfa wrth gefn EDRMS a grëwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gofynnir bellach bod y £32k sy'n weddill o'r tanwariant hwn yn cael ei ddefnyddio yn 2014/15 i helpu i ariannu swydd Swyddog Gwybodaeth. Mae defnyddio adnoddau a gynhyrchir gan y gwasanaeth yn lleihau'r angen am gyllid o'r gronfa Trawsnewid Busnes.

Mae'r tanwariant yn y **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** yn cynnwys £15k ar ffioedd Canfaswyr a £5k o lwfans y Cadeirydd. Mae newidiadau i gofrestru etholiadol wedi arwain at lai o ganfasio pleidleiswyr nag yn y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i gyflwyno system genedlaethol newydd sy'n cyfateb data. Mae'r ddau faes hyn wedi'u nodi fel arbedion effeithlonrwydd cyllideb ar gyfer 2014/15.

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd –** Mae'r Gwasanaethau rŵan yn dangos gorwariant o £96k. Mae hyn yn symudiad cadarnhaol o £141k o'i gymharu â'r mis blaenorol. Y prif feysydd o symudiad yw:

- Mae'r gorwariant ar Gludiant Ysgol wedi lleihau £131k i £282k. Mae'r prif reswm dros y gostyngiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a wnaed gan yr adain i ddilysu llwybrau. Mae hyn wedi arwain at ganfod achos o orwario ar gyfer llwybr. Mae'r cyflenwr wedi cytuno i ad-dalu'r symiau hyn ac mae achos y gorwario a'r taliad yn cael ei adolygu.
- Fel y rhagwelwyd y mis diwethaf, mae incwm parcio wedi gostwng ymhellach dros yr wythnosau diwethaf oherwydd y llifogydd a'r tywydd garw sy'n parhau. Y prif feysydd sy'n cael eu heffeithio yw'r Rhyl a Phrestatyn, Prestatyn yn bennaf oherwydd argaeledd parcio am ddim yn y parc manwerthu a bydd yn bwysau fydd yn ailadrodd ar y gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o £52k yn y gorwariant a ragwelwyd ar gyfer yr ardal hon.

- Mae’r tanwariant yn y Gwasanaethau Amgylcheddol wedi cynyddu o £48k yn bennaf oherwydd ail-dendro’r contract wedi’i luosogi.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes –** mae’r alldro ar gyfer 2013/14 yn y Gwasanaethau Oedolion a Busnes yn dangos tanwariant ar hyn o bryd o £355k. O hyn, mae £55k yn cael ei briodoli i gynigion arbedion cyllideb 14/15, sy’n cael ei roi ar waith yn gynnar er mwyn cyflawni effaith blwyddyn lawn y flwyddyn nesaf. Mae’r gofyniad cenedlaethol i ddiogelu cyllidebau gofal cymdeithasol wedi arwain at £905k ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu nifer o brosiectau gyda’r nod o leihau costau refeniw yn y dyfodol. Tra bod y rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario o fewn y flwyddyn, bydd dau o'r cynlluniau yn cael eu lledaenu dros gyfnod hirach, gan greu tanwariant yn ystod y flwyddyn o £300k. Y cyntaf yw buddsoddi mewn Taliadau Uniongyrchol i unigolion er mwyn hwyluso prynu offer a bydd yn gyfanswm o £150k, wedi’i ledaenu dros dair blynedd (£25k yn y flwyddyn gyfredol). Yr ail yw buddsoddi mewn technoleg newydd (dyfeisiau llaw a meddalwedd newydd), sy’n dod i gyfanswm o £175k i alluogi'r gweithlu i weithio'n fwy effeithlon. Mae gorchmynion wedi cael eu gosod ar gyfer yr offer ond ni fydd darparu ac uwchraddio yn digwydd tan haf 2014. Cynigir felly bod cronfa wrth gefn Moderneiddio Gofal Cymdeithasol yn cael ei sefydlu i glustnodi’r arian hwn i gwrdd â'r ymrwymiadau o gyllideb y flwyddyn gyfredol.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â’r Pecyn Gwella Camau Cyntaf o £355k (yn 14/15 mae'r ffigwr yn gostwng i £117k a bydd yn rhan o'r setliad RSG). Mae'r grant yn cyfrannu at y gost o gyfyngu taliadau am ofal dibreswyl i £50 yr wythnos. Gan mai newydd gael ei gyhoeddi mae’r arian hwn, nid ydyw wedi'i gyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n cael ei ddangos fel rhan o'r alldro yn Atodiad 1. Cynigir bod yr arian yn cael ei glustnodi ar gyfer ei drosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Buddsoddi Strategol i gyfrannu at ariannu cynlluniau tai gofal ychwanegol fel rhan o amcanion y Cynllun Corfforaethol. Efallai y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i "hybu" unrhyw gynllun(iau) posibl a'i ddefnyddio fel lifer i ddenu ariannu allanol.

**Gwasanaethau Plant –** mae’r sefyllfa bresennol a adroddwyd yn danwariant o £410k sydd wedi cynyddu o tua £100k ers yr adroddiad diwethaf. Y prif reswm dros hyn yw nad oes angen swm o £61k a glustnodwyd ar gyfer lleoliad maethu bellach yn ystod y flwyddyn gyfredol.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden -** y rhagolygon presennol yw y byddant yn adennill costau ond mae gan y gwasanaeth sawl cyllideb sy’n dibynnu’n fawr ar ddiwallu targedau incwm mawr e.e. Theatr Pafiliwn y Rhyl a hefyd y canolfannau hamdden. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ffigyrau presennol, mae’r holl gyllidebau hyn yn cadw at y targed, ond bydd darlun y theatr yn dod yn gliriach unwaith y bydd incwm y pantomeim wedi cael ei gyfrif. Yn ogystal, mae'r datblygiad hamdden newydd yn Rhuthun hyd yma wedi rhagori ar nifer y cwsmeriaid sy'n ofynnol fel rhan o'r achos busnes. Mae’r oedi wrth agor Harbwr y Foryd wedi effeithio ar lefelau incwm 13/14 ond cytunwyd eisoes y bydd unrhyw ddiffyg arian yn cael ei dalu yn gorfforaethol.

**Ysgolion -** ar ddiwedd mis Rhagfyr y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £2.859 miliwn, sy'n symudiad negatif bach o £6k ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2012/13 (£2.864m). Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r ddwy ysgol mewn trafferthion ariannol. Mae gan y ddwy ysgol gynlluniau adfer ac yn gweithio'n galed tuag at y targedau a bennwyd yn y cynlluniau hyn. Mae'r Gyllideb nad yw'n ddirprwyedig yn rhagweld tanwariant o £114k ar hyn o bryd. Mae'r rhagamcan hwn yn seiliedig ar yr holl ddefnyddiau hysbys o'r cyllidebau wrth gefn a ddelir yn ganolog. Gall penderfyniadau a digwyddiadau yn y dyfodol newid y sefyllfa hon ac fe adroddir ynghylch hyn mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

**Cyllidebau corfforaethol –** roedd angen gwneud gwaith argyfwng i drwsio amddiffynfeydd y môr yn y Rhyl dros gyfnod y Nadolig oherwydd y rhagolygon am fwy o dywydd garw. Roedd amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer y gwaith yn dod i gyfanswm o £350k a bydd yn cael ei ariannu'n gorfforaethol. Mae hyn yn cyfrif am symudiad yn y gyllideb Gorfforaethol o'r tanwariant o £100k a adroddwyd y mis diwethaf i orwariant o £250k y mis hwn. Mae'r costau terfynol yn parhau i gael eu casglu a bydd balansau cyffredinol yn cwrdd y costau hyn os oes angen.

Mae hawliad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o dan ddarpariaethau'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) i geisio adennill rhai o'r costau o'r ymatebion cychwynnol i'r llifogydd. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i'r gwariant fod yn fwy na throthwy y penderfynwyd yn ei gylch ynghynt (yn seiliedig ar tua 2% o gyllideb net y cyngor). Mewn ymateb i'r llifogydd yn 2012, dyfarnwyd arian i'r cyngor drwy Lywodraeth Cymru o dan gynllun Financial Assistance for Recovery from Emergencies (FARE). Bydd mwy o fanylion ar gynnydd y ceisiadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fis nesaf.

Cariwyd cronfeydd wrth gefn y **Cynllun Corfforaethol** o £10.3m ymlaen i 2013/14, gan adael gofyniad arian o tua £11.7m i ddarparu'r Cynllun. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd £3.1m yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r Cynllun.

Y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT).**. Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio cynnydd o £108k mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn sy'n welliant o £210k o'i gymharu â'r rhagdybiaeth yn y gyllideb. Y prif newid ers y mis diwethaf yw'r diwygiad i'r tâl cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn. Mae'r tâl yn cael ei heffeithio gan y Cynllun Cyfalaf Tai y mae'r rhagolwg diweddaraf yn rhagdybio y bydd y gwariant oddeutu £600k yn llai na'r gwariant a gyllidebwyd o £8.1m. Y prif resymau yw bod nifer o'r contractau gwella tai wedi'u gwrthod a bod rhai gwaith gwelliannau amgylcheddol wedi'u gohirio tan ddechrau 2014/15. Dylid cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2013/14.

Mae crynodeb o'r **Cynllun Cyfalaf** wedi'i amgáu fel **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £40.6m ac mae'r gwariant hyd at ddiwedd mis Rhagfyr yn £18.6 miliwn. Hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 mae'r gwariant bwriedig o £6.6m ar y **Cynllun Corfforaethol**.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a wnaed o effaith y penderfyniad hwn ar gydraddoldeb?**

Cyflwynwyd crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor ym mis Chwefror 2013.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymarferion herio gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd cynrychiolwyr o'r pwyllgor archwilio a'r Cabinet yn rhan o'r ymarferion hyn. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb gydag aelodau ym mis Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cymeradwyodd y Cyngor y cynllun cyfalaf yn dilyn craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac wedi i'r cabinet ei argymell.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y tymor canolig, yn enwedig oherwydd cyfraddau gostyngiadau cyllidebau sydd eu hangen yn y ddwy flynedd nesaf.

Ar ddiwedd mis Rhagfyr, roedd cyfanswm benthyciad y cyngor yn £132.454 miliwn ar raddfa gyfartalog o 5.79%. Roedd balansau buddsoddi yn £25m ar gyfradd gyfartalog o 0.82%.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllidol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a thros y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Appendix 1

# DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL REVENUE BUDGET MONITORING REPORT 2013/14

| Forecast as at 31/12/2013 | Net Budget 2012/13 £'000 | Budget 2013/14 Expenditure £'000 | Budget 2013/14 Income £'000 | Budget 2013/14 Net £'000 | Projected Outturn Expenditure £'000 | Projected Outturn Income £'000 | Projected Outturn Net £'000 | Variance Expenditure £'000 | Variance Income £'000 | Variance Net £'000 | Net % | Variance Previous Report £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Business Improvement & Modernisation | 1,370 | 1,805 | -362 | 1,443 | 1,797 | -426 | 1,371 | -8 | -64 | -72 | -4.99% | -40 |
| Legal & Democratic Services | 1,513 | 2,082 | -555 | 1,527 | 2,095 | -588 | 1,507 | 13 | -33 | -20 | -1.31% | 0 |
| Finance & Assets | 7,058 | 14,503 | -7,433 | 7,070 | 15,118 | -8,048 | 7,070 | 615 | -615 | 0 | 0.00% | 0 |
| Highways & Environmental Services | 20,893 | 37,038 | -17,195 | 19,843 | 33,903 | -13,964 | 19,939 | -3,135 | 3,231 | 96 | 0.48% | 238 |
| Planning & Public Protection | 2,621 | 4,247 | -1,706 | 2,541 | 4,422 | -1,904 | 2,518 | 175 | -198 | -23 | -0.91% | -25 |
| Adult & Business Services | 31,865 | 47,614 | -14,102 | 33,512 | 47,729 | -14,572 | 33,157 | 115 | -470 | -355 | -1.06% | 0 |
| Children & Family Services | 8,913 | 9,406 | -627 | 8,779 | 9,422 | -1,053 | 8,369 | 16 | -426 | -410 | -4.67% | -309 |
| Housing & Community Development | 2,103 | 3,355 | -1,468 | 1,887 | 3,239 | -1,658 | 1,581 | -116 | -190 | -306 | -16.22% | -306 |
| Communication, Marketing & Leisure | 5,224 | 11,828 | -5,884 | 5,944 | 11,940 | -5,996 | 5,549 | 112 | -112 | 0 | 0.00% | 0 |
| Strategic HR | 901 | 1,287 | -368 | 919 | 1,569 | -650 | 919 | 282 | -282 | 0 | 0.00% | -1 |
| ICT/Business Transformation | 1,935 | 2,663 | -707 | 1,956 | 2,625 | -669 | 1,956 | -38 | 38 | 0 | 0.00% | -1 |
| Customers & Education Support | 1,983 | 2,511 | -505 | 2,006 | 2,413 | -518 | 1,895 | -98 | -13 | -111 | -5.53% | -111 |
| School Improvement & Inclusion | 4,444 | 11,847 | -6,978 | 4,869 | 7,686 | -2,817 | 4,869 | -4,161 | 4,161 | 0 | 0.00% | -1 |
| **Total Services** | **90,823** | **150,186** | **-57,890** | **92,296** | **143,958** | **-52,863** | **90,700** | **-6,228** | **5,027** | **-1,201** | -1.30% | **-556** |
| | | | | | | | | | | | | |
| Corporate | 5,997 | 43,483 | -28,970 | 14,513 | 43,733 | -28,970 | 14,763 | 250 | 0 | 250 | 1.72% | -100 |
| Transfers to Corporate Plan Reserve | 1,700 | 3,100 | 0 | 3,100 | 3,100 | 0 | 3,100 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Precepts & Levies | 4,569 | 4,593 | 0 | 4,593 | 4,593 | 0 | 4,593 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Capital Financing | 12,656 | 13,230 | 0 | 13,230 | 13,230 | 0 | 13,230 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| **Total Corporate** | **24,922** | **64,406** | **-28,970** | **35,436** | **64,656** | **-28,970** | **35,686** | **250** | **0** | **250** | 0.71% | **-100** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Council Services & Corporate Budget** | **115,745** | **214,592** | **-86,860** | **127,732** | **208,614** | **-81,833** | **126,386** | **-5,978** | **5,027** | **-951** | -0.74% | **-656** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Schools & Non-delegated School Budgets** | **61,643** | **72,979** | **-9,140** | **63,839** | **73,571** | **-9,841** | **63,730** | **592** | **-701** | **-109** | **-0.17%** | **-164** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Total Council Budget** | **177,388** | **287,571** | **-96,000** | **191,571** | **282,185** | **-91,674** | **190,116** | **-5,386** | **4,326** | **-1,060** | -0.55% | **-820** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Housing Revenue Account** | **-71** | **12,772** | **-12,670** | **102** | **12,619** | **-12,727** | **-108** | **-153** | **-57** | **-210** | | **-94** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| Appendix 2 Medium Term Financial Plan Update 2013/14<br>Update to 31/12/2013 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ref** | **Action** | | | |
| **General** | | **Status** | **Saving £'000** | **Total £'000** |
| A2 | Reduce Contingency for balances and impact of Recession | Achieved | 300 | |
| A3 | Convert Essential Car Users to Casual | Achieved | 200 | |
| A10 | Modernising the Council | In progress | 200 | |
| A7 | Costs of Democracy | Achieved | 17 | |
| | | | | **717** |
| **Support Services** | | | | |
| C6 | ICT Printer Rationalisation Project | In progress | 25 | |
| C7 | Finance & Assets | Achieved | 100 | |
| | Energy - Reduced Consumption | Achieved | 100 | |
| | Capital Financing Budget | Achieved | 100 | |
| | | | | **325** |
| **Service Challenges** | | | | |
| **Communication, Marketing & Leisure** | | | | |
| Da5 | Remove leisure subsidy by increasing income | In progress | 70 | |
| Dk1 | Modernise Library Service Provision | Achieved | 77 | |
| | | | | **147** |
| **Environmental Services** | | | | |
| Db2 | Renegotiate recyclate and disposal contracts | Achieved | 225 | |
| Db5 | Regional Waste Procurement budget | Achieved | 81 | |
| Db6 | Succession Planning | Achieved | 15 | |
| Db10 | Service Redesign (Street Cleansing) | In progress | 138 | |
| | Various Minor reductions in expenditure within Env Servs | Replacement | 15 | |
| Db15 | Free School Meals - increase take-up | Achieved | 5 | |
| Db15a | Reduced Subsidy of School Meal Service | Achieved | 50 | |
| Db16 | Countryside - AONB | Achieved | -20 | |
| Db17 | Stores | Achieved | -45 | |
| Db18 | Recycling Parks | Achieved | 100 | |
| **Highways & Infrastructure** | | | | |
| EC17 | Traffic & Road Safety | In progress | 50 | |
| EC18 | Highway Maintenance DLO | In progress | 150 | |
| | | | | **764** |
| **Planning and Public Protection** | | | | |
| EC21 | Review Pest Control | Achieved | 10 | |
| EC23 | Review of Building Control | Achieved | 20 | |
| EC26 | Review of Pollution Control | Achieved | 20 | |
| EC29 | Review of Management | Achieved | 40 | |
| | | | | **90** |
| **Adult Social Services** | | | | |
| Df1 | Cefndy Healthcare - reduced subsidy | Achieved | 46 | |
| | **Older People** | | | |
| Df5 | Externalise elements of Home Care | Achieved | 15 | |
| Df8 | Impact of investment in reablement | Achieved | 75 | |
| Df9 | Residential Care - Impact of Extra Care | Achieved | 155 | |
| | **Mental Health** | | | |
| Df11 | Management Changes | Achieved | 19 | |
| Df12 | Partnership Efficiency Savings | Achieved | 26 | |

| | | Status | Saving £,000 | Total £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Adult Social Services (con'd)** | | | | |
| | **Physical Disability & Impairment** | | | |
| Df13 | ISIL Scheme | Achieved | 12 | |
| Df14 | Reablement Intervention | Achieved | 26 | |
| Df15 | Telecare | Achieved | 20 | |
| | **Other Adult Services** | | | |
| Df17 | Systems Thinking and Vacancy Control | Achieved | 80 | |
| | | | | **474** |
| **Children & Family Services** | | | | |
| | **Staffing** | | | |
| Dj4 | Social Workers - reduction in caseload | Achieved | 108 | |
| Dj7 | Review of Bryn Y Wal Residential Service | Achieved | 109 | |
| Dj8 | Reduction in Independent (external) Placement Provision | Achieved | 63 | |
| | **Pressures** | | | |
| Dj18 | In-house Fostering | Achieved | -35 | |
| Dj20 | Legislative changes | Achieved | -28 | |
| | | | | **217** |
| **Housing & Community Development** | | | | |
| | Various Small savings in Housing | Achieved | 1 | |
| Dc1 | Review of Regeneration | Achieved | 10 | |
| Db18 | Regeneration Service Redesign | Achieved | 23 | |
| | | | | **34** |
| **REGIONAL WORKING/COLLABORATION** | | | | |
| ENW1 | Education Regional Board | Achieved | 55 | |
| ENW2 | Social Care Regional Board | In progress | 35 | |
| ENW2 | Social Care Regional Board | Deferred | 65 | |
| | | | | **155** |
| **OUTSOURCING** | | | | |
| G2 | Bodelwyddan Castle | Achieved | 28 | |
| G3 | Clwyd Leisure | Achieved | 50 | |
| G4 | ECTARC | Achieved | 5 | |
| | | | | **83** |
| **Other Cultural/Heritage activities** | | | | |
| H2 | Ruthin Craft Centre | Achieved | 20 | |
| H3 | Llangollen Pavilion | Achieved | 25 | |
| H4 | Heritage facilities | In progress | 10 | |
| | | | | **55** |
| | **Total Savings 2013/14** | | | **3,061** |

| **Summary:** | | £'000 | % |
|---|---|---|---|
| Savings Achieved/Replaced or Pressures Confirmed | | **2,318** | **76** |
| Savings In Progress/Being Reviewed | | **678** | **22** |
| Savings Not Achieved or Deferred and not replaced | | **65** | **2** |
| **Total** | | **3,061** | |

## Denbighshire County Council - Capital Plan 2012/13 - 2015/16

**APPENDIX 3**

**Position to end of December 2013**

# General Capital Plan

| | | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | £000s | £000s | £000s | £000s |
| **Capital Expenditure** | | | | | | |
| | **Total Estimated Payments - General** | 33,104 | 5,749 | 312 | | |
| | **Total Estimated Payments - Corporate Plan** | 6,626 | 2,790 | | | |
| | **Contingency** | 934 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| | **Total** | 40,664 | 9,539 | 1,312 | 1,000 | 1,000 |
| **Capital Financing** | | | | | | |
| 1 **External Funding** | | 26,910 | 10,540 | 4,777 | 4,571 | 4,571 |
| 2 **Receipts and Reserves** | | 3,211 | 1,854 | | | |
| 3 **Prudential Borrowing** | | 10,543 | 1,011 | 250 | | |
| 5 **Unallocated Funding** | | 0 | (3,866) | (3,715) | (3,571) | (3,571) |
| | **Total Capital Financing** | 40,664 | 9,539 | 1,312 | 1,000 | 1,000 |

# Corporate Plan

| | | £000s | £000s | £000s | £000s | £000s |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Approved Capital Expenditure included in above plan** | Cefndy Healthcare Investment | 30 | 470 | | | |
| | Highways Maintenance | 2,808 | | | | |
| | Bridges | 1,300 | | | | |
| | Schools Capitalised Maintenance | 190 | | | | |
| | Rhyl High School | 900 | 575 | | | |
| | Ysgol Bro Dyfrdwy - Dee Valley West Review | 1,228 | 100 | | | |
| | Bodnant Community School | 150 | 145 | | | |
| | Ysgol Glan Clwyd | 20 | 1,500 | | | |
| **Estimated Capital Expenditure** | | | 11,575 | 32,636 | 34,818 | 23,041 |
| | **Total Estimated Payments** | 6,626 | 14,365 | 32,636 | 34,818 | 23,041 |
| **Approved Capital Funding included in above plan** | External Funding | 1,418 | 1,600 | | | |
| | Receipts and Reserves | 1,100 | 1,190 | | | |
| | Prudential Borrowing | 4,108 | | | | |
| **Estimated Capital Funding** | External Funding | | 4,036 | 15,904 | 10,305 | 12,094 |
| | Receipts and Reserves | | 1,854 | 7,546 | 6,808 | 3,692 |
| | Prudential Borrowing | | 5,685 | 9,186 | 17,705 | 7,255 |
| | **Total Estimated Funding** | 6,626 | 14,365 | 32,636 | 34,818 | 23,041 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag